# Hysbysiad Preifatrwydd - NousCubane fel Rheolydd Data

## Dyddiad dechrau: 6 Chwefror 2024

### 1. Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae NousCubane yn darparu gwasanaethau penodol i'r sefydliad ("y Sefydliad") sy'n eich cyflogi, neu sy'n eich defnyddio i ddarparu gwasanaethau fel contractwr. Wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, efallai y bydd NousCubane (y cyfeirir ato fel NousCubane, ni, ein yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn) yn casglu gwybodaeth bersonol gennych chi, ac os felly NousCubane fydd y "rheolydd" at ddibenion preifatrwydd a bydd yn gyfrifol am gydymffurfio â rheolau preifatrwydd mewn perthynas â'r data personol a roddwch i ni. Mae hyn yn golygu mai ni sy'n gyfrifol am benderfynu sut rydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi ac mae'n ofynnol i ni, o dan ddeddfwriaeth diogelu data, eich hysbysu am y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Rydym yn darparu offer a gwasanaethau cymorth i sefydliadau sy'n ymwneud â chasglu a dadansoddi data ar eu gwasanaethau gweinyddol a chymorth, gyda'r nod o wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu systemau a'u gweithrediadau. Mae ein gwasanaethau i'ch Sefydliad yn cynnwys cynadleddau, digwyddiadau, hyfforddiant ac arolygon adborth y gallwn eich gwahodd i gymryd rhan ynddynt. Wrth gyflawni'r gwasanaethau hyn, mae NousCubane yn rhoi mynediad i rai o aelodau o staff y Sefydliad i rannau o'i systemau a gall ddatgelu rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol i'r Sefydliadau at ddibenion sy'n ymwneud â darparu ein gwasanaethau i'r sefydliadau hynny.

### 2. Y math o wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi

Mae data personol, neu wybodaeth bersonol, yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn sy'n galluogi i'r person hwnnw gael ei adnabod. Nid yw'n cynnwys data lle mae'r hunaniaeth wedi'i dileu (data dienw). Mae NousCubane yn casglu gwybodaeth gofrestru eich cyfrif oddi wrthych chi neu'ch cyflogwr (neu, os ydych yn gontractwr, y sefydliad y mae gennych gontract ag ef) er mwyn eich rhoi ar systemau NousCubane, gan gynnwys UFAnalytics, UFAST ac UFHelp. Fel arfer, mae'r wybodaeth hon yn cynnwys eich enw, enw defnyddiwr, teitl swydd (os yw'n berthnasol) a manylion cyswllt gan gynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost.

Fel rhan o'n gwasanaethau i'ch Sefydliad rydym yn casglu data fel enwau, teitlau swyddi, gwybodaeth gyswllt fel cyfeiriadau e-bost a gwybodaeth arall fel dewisiadau bwyd os ydych yn mynychu digwyddiadau a drefnwn. Gwnawn hyn at ddibenion y gwasanaethau penodol a ddarparwn, er enghraifft i drefnu cynadleddau neu weithdai neu ddigwyddiadau eraill yr ydym yn eu cynnal, ac at ddiben trefnu a chynnal arolygon adborth ar gyfer NousCubane i wella'r gwasanaethau a ddarparwn i'ch Sefydliad.

Mae rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chasglu'n awtomatig pan fyddwch yn defnyddio systemau NousCubane, ac mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cesglir gwybodaeth drwy wasanaethau olrhain trydydd parti sy'n defnyddio cwcis a thagiau tudalennau (gwefannau) i gasglu data cyfanredol na ellir adnabod neb drwyddynt am ddefnyddwyr gwefannau ein Gwasanaethau, gan gynnwys ystadegau am ddefnydd a defnyddwyr a manylion sydd eu hangen i'ch dilysu fel defnyddiwr awdurdodedig.

- Mae data am ddyfeisiau yn cael eu cofnodi am y ddyfais a'r rhaglen y mae cyfranogwyr yn eu defnyddio i gael mynediad i'n gwasanaethau gan gynnwys cyfeiriad IP a'r math o borwr. Efallai y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am leoliad daearyddol defnyddiwr yn seiliedig ar y cyfeiriad IP.
- Rydym yn defnyddio cwcis (darnau bach o ddata yr ydym yn eu storio ar ddyfais a ddefnyddir i gael mynediad i'n gwasanaethau) ar wefannau ein Gwasanaethau, er mwyn i ni allu adnabod defnyddwyr sy'n dychwelyd. Mae pob cwci yn dod i ben ar ôl cyfnod penodol, yn dibynnu ar gyfer beth rydym yn ei ddefnyddio. Rydym yn defnyddio cwcis am sawl rheswm, gan gynnwys:

a) I wneud ein systemau yn haws eu defnyddio. Rydym yn cadw enwau defnyddwyr mewn cwci er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr sy'n dychwelyd fewngofnodi.

b) I wella diogelwch. Rydym yn defnyddio cwcis i ddilysu hunaniaeth defnyddiwr megis gwirio a yw defnyddiwr wedi mewngofnodi i system NousCubane ar hyn o bryd.

c) I ddarparu cynnwys personol i ddefnyddwyr.

## 3. Pwrpas prosesu'r wybodaeth

Bydd NousCubane ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddiben cyflawni ein rhwymedigaethau cytundebol i'ch cyflogwr, sy'n ymwneud yn bennaf â rhoi mynediad i chi i'n systemau a thasgau ategol, megis anfon gwybodaeth a diweddariadau atoch mewn perthynas â'n systemau, ac at ddibenion darparu gwasanaethau ategol i chi, megis manylion cynadleddau sy'n berthnasol i chi. Er ein bod yn dibynnu ar gyflawni ein buddiannau cyfreithlon wrth ddarparu ein gwasanaethau arbenigol i sefydliadau fel y sail gyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu eich gwybodaeth bersonol, wrth gasglu a phrosesu eich gwybodaeth bersonol ni fydd ein buddiannau cyfreithlon yn drech na'ch hawliau a'ch rhyddid chi.

## 4. Rhannu data a gwneud copïau wrth gefn

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partïon lle mae hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith, lle mae'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan ein contract gyda'ch Sefydliad. Gall hyn olygu rhannu rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol â darparwyr gwasanaethau eraill sy'n gweithredu fel proseswyr data. Mae NousCubane yn gweithredu yn Awstralia, Canada, Iwerddon, Seland Newydd a'r Deyrnas Unedig ('Cwmnïau NousCubane'), ac efallai y byddwn hefyd yn rhannu rhywfaint o wybodaeth bersonol rhwng ein Cwmnïau cysylltiedig, er enghraifft, pan fyddwn yn trefnu digwyddiadau sy'n gysylltiedig â darparu ein gwasanaethau, neu ar gyfer darparu cymorth technegol gan gynnwys drwy ein rhaglen UFHelp.

Os oes angen i NousCubane rannu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi, bydd NousCubane ond yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon ar y sail bod hynny'n cydymffurfio â'r deddfau preifatrwydd perthnasol a bydd eich gwybodaeth yn destun mesurau diogelu priodol, yn cael ei storio'n ddiogel a'i thrin yn unol â safonau diogelwch data NousCubane. Ni fyddwn yn prosesu nac yn rhannu unrhyw wybodaeth amdanoch sy'n wybodaeth sensitif o dan gyfreithiau preifatrwydd perthnasol neu y gwaherddir ei phrosesu neu ei rhannu o dan Erthygl 9 o Reoliad Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd ar Ddiogelu Data ('GDPR').

Mae gan NousCubane drefniadau prosesu data a chreu copïau wrth gefn sy'n drefniadau ar wahân oddi ar y safle ym mhob awdurdodaeth y mae'n gweithredu ynddi. O bryd i'w gilydd, rydym yn gwneud copi wrth gefn o ddata i'w cadw ar systemau mewnol diogel ac yn gwneud copïau wrth gefn yn ddyddiol i'w cadw ar systemau diogel oddi ar y safle. Mae'r systemau prosesu a chadw copïau wrth gefn oddi ar y safle wedi'u lleoli mewn cyfleusterau diogel gyda mynediad cyfyngedig iddynt. Ac eithrio offer cymorth technegol NousCubane, cedwir cronfeydd data gweithredol a chopïau wrth gefn yn y rhanbarth perthnasol:

a) Awstralia a Seland Newydd: gwybodaeth bersonol a gedwir yn Awstralia

b) Canada a Mecsico: gwybodaeth bersonol a gedwir yng Nghanada

c) Iwerddon a’r Deyrnas Unedig: gwybodaeth bersonol a gedwir o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd

## 5. Trosglwyddiadau rhyngwladol

Gall eich gwybodaeth bersonol gael ei throsglwyddo a'i phrosesu mewn gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), gan gynnwys Awstralia. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn sicrhau bod mesurau diogelu addas ar waith i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y camau a gymerwn i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol pan gaiff ei phrosesu y tu allan i’r AEE, cysylltwch â’n Swyddog Diogelu Data.

## 6. Diogelwch data

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei defnyddio, ei newid, ei datgelu neu ei gweld mewn ffordd anawdurdodedig yn ddamweiniol. Yn ogystal â hynny, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r gweithwyr, asiantau, contractwyr a thrydydd partïon eraill y mae angen iddynt ei gweld at ddibenion busnes. Dim ond yn unol â'n cyfarwyddiadau ni y byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ac maent yn destun dyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw achos a amheuir o dorri diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am unrhyw achos o'r fath lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein mesurau rhannu data a diogelwch data drwy gysylltu â’n Swyddog Diogelu Data.

## 7. Cadw data

Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo angen i gyflawni’r dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

## 8. Hawliau mewn perthynas â mynediad, cywiro, dileu a chyfyngu

### Eich Hawliau mewn Perthynas â Gwybodaeth Bersonol

O dan rai amgylchiadau, yn ôl y gyfraith mae gennych yr hawl i:

- **Ofyn am fynediad** i’ch gwybodaeth bersonol (a elwir yn gyffredin yn “gais am fynediad gan destun data”). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o’r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch ac i wirio ein bod yn ei phrosesu’n gyfreithlon.
- Gofyn i’r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch **gael ei chywiro**. Mae hyn yn eich galluogi i sicrhau bod unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch yn cael ei chywiro.
- **Gofyn i’ch gwybodaeth bersonol gael ei dileu**. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu hepgor gwybodaeth bersonol lle nad oes rheswm da i ni barhau i’w phrosesu. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni ddileu neu hepgor eich gwybodaeth bersonol lle rydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu'r wybodaeth (gweler isod).

- **Gwrthwynebu prosesu** eich gwybodaeth bersonol os oes rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n gwneud i chi fod eisiau gwrthwynebu i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol ar sail buddiannau cyfreithlon.
- **Gofyn am gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft os ydych am i ni gadarnhau ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Gofyn am drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i rywun arall.
- **Cyflwyno cwyn** i awdurdod goruchwyliol.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch yr hawliau uchod at ein Swyddog Diogelu Data yn ysgrifenedig drwy e-bost at privacy@nouscubane.com

## 9. Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Diweddarwyd y fersiwn hon ddiwethaf ar 21 Ebrill 2021 a gellir cael copi drwy gysylltu â ni.

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn unrhyw bryd, a byddwn yn rhoi hysbysiad preifatrwydd newydd i chi pan fyddwn yn gwneud unrhyw ddiweddariadau sylweddol. O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y byddwn hefyd yn eich hysbysu mewn ffyrdd eraill am brosesu eich gwybodaeth bersonol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â privacy@nouscubane.com

**Cwmnïau NousCubane**

Awstralia a Seland Newydd: Cubane Consulting Group Pty Ltd, ABN: 15 613 111 443

Y DU: Cubane Consulting (UK) Limited, Rhif Cwmni 09526740

Canada: Cubane Consulting (Canada) Ltd, Rhif Corfforaethol C1169363